



## Polisi Oedolion Ifanc Sy'n Gofalu

<b>Fersiwn</b>	<b>Awst 2020</b>
<b>Dyddiad Adolygu</b>	<b>Gorffennaf 2023</b>
<b>Awdur</b>	<b>Anne Pitman Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr</b>
<b>Lleoliad y Polisi</b>	<b>BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies &amp; Procedures/Learner Services &amp; Support</b>
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	<b>JNCC – Awst 2020 Tîm Rheoli'r Coleg – Awst 2020</b>

Os hoffech chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, gael y ddogfen hon mewn print bras, sain, copi electronig neu yn Saesneg, cysylltwch ag:

Anne Pitman, Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr  
Ebost: [anne.pitman@gowercollegeswansea.ac.uk](mailto:anne.pitman@gowercollegeswansea.ac.uk)

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Crëwyd y polisi Oedolion Ifanc sy'n Gofalu (YAC) er mwyn cydnabod, hyrwyddo a chefnogi myfyrwyr a phrentisiaid sydd â chyfrifoldebau gofalu am aelod o'r teulu, partner neu. Mae'r polisi hwn yn cael ei ardystio a'i gefnogi'n llawn gan Fwrdd Corfforaeth y Coleg a'r TRhC. Mae'r Coleg yn credu bod gan bob Oedolyn Ifanc sy'n Gofalu hawl i dderbyn addysg, waeth beth fo'i ymrwymiad i ddarparu gofal i aelod o'r teulu.

Pan fydd Oedolyn Ifanc sy'n Gofalu yn darparu gofal i rywun yn ei deulu sydd â chyflwr iechyd, anabledd neu broblem ynghylch camddefnyddio sylweddau, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arno er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu ei botensial. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymwybodol o hyn ac yn ymrwymedig i sicrhau bod cymorth ar waith i gefnogi Oedolion Ifanc sy'n Gofalu i gyflawni eu cymhwyster.

## 2. Diffiniadau

- 2.1 Mae Oedolyn Ifanc sy'n Gofalu yn fyfyrwr 16-25 oed sy'n gofalu, heb dâl, am aelod o'r teulu, ffrind neu bartner sydd â chyflwr iechyd neu iechyd meddwl, anabledd, neu sy'n gaeth i alcohol neu sylweddau. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cydnabod y gall ofalu am rywun gynnwys cynnig gofal corfforol ac emosiynol, neu gymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch neu les rhywun. Mae cyfrifoldebau Oedolion Ifanc sy'n Gofalu yn eang iawn, ac o'r herwydd, gall effeithio ar addysg y person ifanc sy'n gofalu.

## 3. Sgôp

- 3.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr yn y Coleg, gan gynnwys disgyblion ysgol a phrentisiaid sy'n derbyn rhan o'u haddysg orfodol yn y Coleg.
- 3.2 Bydd y Coleg yn ymdrechu bob amser i nodi unrhyw Ofalwyr Ifanc sy'n Gofalu, er mwyn eu darparu â chymorth priodol.
- 3.3 Mae'r Coleg yn deall y bydd angen i'r polisi presenoldeb ystyried cyfrifoldebau Oedolion Ifanc sy'n Gofalu yn ystod adegau hanfodol. Bydd cefnogaeth ar gael i Oedolion Ifanc sy'n Gofalu i ddal i fyny ar waith a gollwyd yn ystod yr adegau yma.
- 3.4 Yn ogystal, mae'r Coleg wedi ymrwymo i nodi YAC fel grŵp blaenoriaeth ar gyfer cymorth ariannol, pe bai argyfwng ariannol yn effeithio ar unigolion YAC.

#### **4. Datganiad o Ddiben**

Pwrpas y Polisi Oedolion Ifanc sy'n Gofalu yw sicrhau bod staff yn gwybod yn union sut i ymdrin â myfyrwyr sy'n datgelu eu bod yn Ofalwyr Ifanc sy'n Gofalu. Mae'r Polisi yn nodi gweithdrefn a manylion y Staff Cymorth sydd wedi'u hyfforddi i gynorthwyo a chynnig cefnogaeth.

#### **5. Corff y Polisi**

Mae gan Goleg Gŵyr Abertawe aelod o staff dynodedig sydd â chyfrifoldeb arweiniol am Ofalwyr Ifanc sy' Gofalu, Tasmyn Oates. Mae Tasmyn yn sicrhau bod Oedolion Ifanc sy'n Gofalu yn gwybod pwy yw hi a sut y maent yn gallu cael gafael ar gymorth. Mae gan y Coleg bartneriaeth gadarn ar waith gyda Darparwyr Gwasanaeth Oedolion Ifanc sy'n Gofalu yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Chaerfyrddin, ac mae Tasmyn yn gallu rhoi Oedolion Ifanc sy'n Gofalu mewn cysylltiad â hwy.

Mae gan Goleg Gŵyr Abertawe ymrwymiad i:

- Ddarparu hyfforddiant ar Oedolion Ifanc sy'n Gofalu, gan ymgorffori hyn mewn sesiynau datblygu proffesiynol parhaus i lywodraethwyr, uwch rheolwyr a phob aelod o staff.
- Cadw i fyny â datblygiadau cenedlaethol a lleol mewn perthynas â deddfwriaethau ac arweiniad sy'n effeithio ar Oedolion Ifanc sy'n Gofalu.
- Sicrhau bod Oedolion Ifanc sy'n Gofalu yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth a bod gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn hygyrch ac yn cael ei nodi'n glir.
- Defnyddio Sesiynau Sefydlu myfyrwyr i hyrwyddo dealltwriaeth lawn am Oedolion Ifanc sy'n Gofalu, gan wneud yn siŵr bod pob myfyriwr yn deall ac yn derbyn holl gyfrifoldebau Oedolion Ifanc sy'n Gofalu.

#### **Yn ystod broses cyfweld a chofrestru'r Coleg, mi fydd y Coleg yn:**

- Nodi a oes gan y myfyriwr gyfrifoldebau gofalu ac a yw hyn yn golygu bod gan yr Oedolyn Ifanc sy'n Gofalu anghenion ychwanegol y mae angen eu cefnogi.
- Sefydlu cynlluniau unigol i gydnabod unrhyw anghenion cymorth sydd gan Oedolion Ifanc sy'n Gofalu.
- Cyfeirio Oedolion Ifanc sy'n Gofalu at asiantaethau cymorth a gweithwyr proffesiynol eraill, lle bo'n briodol.

## **Hawl Preifatrwydd Oedolion Ifanc sy'n Gofalu**

- Mae'n bwysig bod preifatrwydd Gofalwyr Ifanc sy'n Gofalu yn cael ei barchu ac nad yw gwybodaeth amdanynt neu eu rolau gofalu yn cael eu hadrodd o flaen eu cyfoedion.
- Dylid rhannu gwybodaeth am Oedolion Ifanc sy'n Gofalu gydag asiantaethau proffesiynol eraill at ddibenion cymorth ychwanegol yn unig (rhaid i Oedolion Ifanc sy'n Gofalu rhoi caniatâd i wneud hyn).

## **Cymorth trosglwyddo i Oedolion Ifanc sy'n Gofalu**

- Mae'r Coleg yn cynnig cymorth i Oedolion Ifanc sy'n Gofalu i symud ymlaen i Brifysgolion neu Golegau eraill, ac rydym yn hapus i gyfathrebu ar ran yr Oedolion Ifanc sy'n Gofalu, er mwyn rhannu gwybodaeth (yn amodol ar ganiatâd y gofalwyr) amdanynt ac i sicrhau bod cymorth ar waith mewn perthynas â symud ymlaen.
- Bydd Swyddogion Cymorth Myfyrwyr yn nodi Oedolion Ifanc sy'n Gofalu sydd dan fygythiad o gwmpo i'r categori NEET, a byddant yn cymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

## **Lleihau rhwystrau i addysg a dysgu**

- Bydd y Coleg yn gwneud yn siŵr bod unrhyw Oedolion Ifanc sy'n Gofalu sy'n derbyn cymorth yn cael eu cefnogi'n llawn, y unol â'u hanghenion.
- Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn caniatáu i Oedolion Ifanc sy'n Gofalu i ffonio gartref yn ystod amserau egwyl a chinio er mwyn lleihau'r pryder a allai fod ganddyn nhw am y person y maent yn gofalu amdano.
- Lle bod angen, bydd Swyddogion Cymorth Myfyrwyr (oherwydd natur eu swydd) yn gallu newid dyddiadau cau ar gyfer gwaith cwrs ac asesiadau ar ran Oedolion Ifanc sy'n Gofalu.

## **6. Dogfennau Cysylltiedig**

- Polisi Presenoldeb ar gyfer Myfyrwyr
- Polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed

## **7. Yr Iaith Gymraeg**

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Atodiad 1 – Llythyr Oedolion Ifanc sy'n Gofalu

Annwyl

Yn eich cyfweiliad gyda Choleg Gŵyr Abertawe yn ddiweddar, fe ddywedoch wrthym eich bod yn Oedolyn Ifanc sy'n Gofalu.

Fel Coleg, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod profiadau buddiol iawn yn gallu bod ynghlwm â Gofalu, ond rydym hefyd yn gwybod y gall ofalu arwain at heriau sy'n achosi rhwystrau i'ch profiad dysgu. Pa bynnag gwrs rydych yn ei astudio, hoffem ichi wybod y byddwch yn gallu cael gafael ar Swyddog Cymorth Myfyrwyr, a fydd yn gallu eich darparu â chymorth, cyngor ac arweiniad trwy gydol y flwyddyn academaidd, pe bai ei angen arnoch.

Gall y gefnogaeth gynnwys siarad ag unigolyn yn unig, neu gallwch gael rhywun i'ch helpu chi ddatrys unrhyw broblemau allai fod gennych o ganlyniad i'ch cyfrifoldebau gofalu. Pa bynnag gefnogaeth sydd ei hangen arnoch, byddwn yn gwneud ein gorau i helpu. Rydym yn cysylltu â Chanolfannau Gofalwyr Lleol i helpu gyda'r gwaith o atgyfeirio Oedolion Ifanc sy'n Gofalu, fel y gallant gael gafael ar gymorth/arweiniad gofal arbenigol, os nad ydynt eisoes yn gwneud hy.

Gweler yn atodol ffurflen sy'n rhoi mwy o wybodaeth i ni am y gefnogaeth y gallwn ei chynnig i chi yn ystod eich amser gyda'r coleg. Gallwch hefyd gyrchu ein gwybodaeth am Oedolion Ifanc sy'n Gofalu ar-lein drwy glicio ar yr adran 'Bywyd Myfyrwyr', yna'r adran 'Cymorth'.

Yn amlwg, efallai ni fydd angen cefnogaeth na chymorth arnoch... ond braf yw gwybod ei fod yno pe bai ei angen arnoch ryw ddydd.

Os hoffech siarad ag aelod o staff am y cymorth sydd ar gael i Oedolion Ifanc sy'n Gofalu, gallwch gysylltu ag un o'r Arweinwyr Dynodedig ar gyfer Oedolion Ifanc sy'n Gofalu:

Tamsyn Oates (Dydd Llun i Ddydd Mercher)  
01792 284071 [Tamsyn.Oates@gcs.ac.uk](mailto:Tamsyn.Oates@gcs.ac.uk)

Ryan McCarley (Dydd Llun i Ddydd gwener)  
01792 284071 or 01792 890700 ext 2418 [Ryan.Mccarley@gcs.ac.uk](mailto:Ryan.Mccarley@gcs.ac.uk)

Yn gywir  
Tamsyn a Ryan

**Swyddogion Cymorth Myfyrwyr**  
**Arweinwyr Dynodedig ar gyfer Oedolion Ifanc sy'n Gofalu**

## Atodiad 2 - Cefnogi Oedolyn Ifanc sy'n Gofalu

Mae oedolyn ifanc sy'n gofalu (YAC) yn rhywun 16-25 oed sy'n gofalu, heb dâl, am aelod o'r teulu, ffrind neu bartner sydd â chyflwr iechyd neu iechyd meddwl, anabled, neu sy'n gaeth i alcohol, cyffuriau neu sylweddau.

Mae pob YAC yn ymgymryd â chyfrifoldebau megis helpu gyda gofal personol, helpu gyda meddyginiaeth, mynd i apwyntiadau meddygol/Ysbyty, siopa a gwaith tŷ.

Does dim angen ichi gael eich cydnabod yn swyddogol gan wasanaeth proffesiynol i fod yn YAC, does dim rhaid ichi ychwaith fod yn brif ofalwr. Mae llawer o Oedolion Ifanc sy'n Gofalu nad ydynt yn cael eu cydnabod fel Gofalwyr oherwydd nad ydynt yn dweud wrth unrhyw un eu bod yn gofalu.

Os ydych yn cyfeirio Oedolyn Ifanc sy'n Gofalu, dilynwch y weithdrefn isod:

- Esboniwch y cymorth sydd ar gael o fewn y coleg. Anogwch y myfyriwr i ganiatáu ichi rannu ei rôl ofalu gyda'i diwtor personol.
- Sicrhewch fod y myfyriwr yn gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael i Oedolion Ifanc sy'n Cefnogi y tu allan i'r Coleg.
- Anogwch y myfyriwr i ganiatáu ichi ei atgyfeirio i'r Ganolfan YAC lleol (os nad ydyw ef/hi eisoes wedi bod yno) ac amlinellwch y buddion e.e. cyfleoedd am seibiant, cyngor ariannol, cefnogaeth emosiynol, eiriolaeth ac ati.
- Rhowch daflenni iddynt neu dywedwch wrthynt ble y gallant gael gafael ar wybodaeth ar-lein am wasanaethau YAC e.e. Gwefan y Coleg a gwefannau Gofalwyr perthnasol.
- Ticiwch y bocs YAC ar eu tudalen SID i sicrhau bod Swyddogion Cymorth ac Ymgynghorwyr Iechyd yn gwybod eu bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu (Ni fydd hyn yn cael ei weld gan unrhyw aelod arall o staff y tu allan i'r tîm cymorth).
- Ebostiwch enw'r myfyriwr i Tasmyn Oates neu Ryan McCarley er mwyn inni gynnal ffigyrau manwl mew perthynas â niferoedd YAC y Coleg.

Y tri phrif Wasanaethau Gofalu ar gyfer YAC (yn ddibynnol ar leoliad cartref y YAC) yw:

**Canolfan Gofalwyr Abertawe** (01792 653344)

Alex Atkins: alex@swanseacarerscentre.org.uk

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Sir Gâr** (0300 0200 002)

Mel Rees Lewis: melanie@carmarthenshirecarers.org.uk

**Castell-nedd Port Talbot** (01639 763030)

Emma Culleton: e.culleton@npt.gov.uk

## Atodiad 3 – Ffurflen hunanatgyfeirio YAC

### COLEG GŴYR ABERTAW

#### FFURFLEN HUNAN DDATGELU OEDOLION IFANC SY’N GOFALU

Trwy lenwi’r ffurflen hon, rydych yn rhoi caniatâd i’ch gwybodaeth gael ei rhannu â’r tîm cymorth Oedolion Ifanc sy’n Gofalu. Llenwch gymaint o wybodaeth ag yr ydych yn teimlo’n gyforddus i ranu gyda ni. Bydd y wybodaeth a roddwch inni yn cael ei gadw’n ddiogel ac yn gyfrinachol.

Bydd Tamsyn Oates neu Ryan McCarley yn cysylltu â chi yn breifat i drafod y cymorth sydd ar gael i chi yng Ngholeg GŴyr Abertawe. Byddwch yn cael penderfynu pa gymorth y byddwch am ei gael, er, does dim rhaid ichi gael cymorth o gwbl.

#### Datganiad:

Hoffwn i dîm Oedolion Ifanc sy’n Gofalu Coleg GŴyr Abertawe wybod fy mod yn Oedolyn Ifanc sy’n Gofalu. Rwyf yn gallu, os dymunaf, trafod yn gyfrinachol gyda nhw am fy nghyfrifoldebau Gofalu, a phenderfynu gyda’n gilydd faint o wybodaeth a ddarperir i’m darlithwyr, fy nghyd-fyfyrwyr ac ati.

Fy enw llawn \_\_\_\_\_

Rydw i wedi gwneud cais am gwrs neu wedi cofrestru arno yn

- Gorseinon
- Llwyn Y Bryn
- Llys Jiwbilî
- Tycoch

Enw’r cwrs rydw i wedi cyflwyno cais amdano/yn astudio yw:

\_\_\_\_\_

Rydw i’n darparu gofal i

Aelod o’r teulu rydw i’n byw ag ef/hi	<input type="checkbox"/>
Aelod o’r teulu sy’n byw mewn tŷ gwahanol	<input type="checkbox"/>
Ffrind	<input type="checkbox"/>
Partner	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>

Dyma beth yr hoffwn ichi ei wybod am fy rôl fel Oedolyn Ifanc sy’n Gofalu:

\_\_\_\_\_

Dyma rhai o fy mhryderon ynghylch fy nghyfrifoldeb gofalu a dod i’r coleg:

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Dyma rai esiamplau o gymorth a fyddai’n help mawr i mi yn y Coleg:

\_\_\_\_\_

Llofnod.....

Dyddiad.....

**Atodiad 4**



**Ffurflen Atgyfeirio Prosiect Oedolion Ifanc sy'n Gofalu**

Dyddiad yr Atgyfeiriad:		Caniatâd gan y person ifanc i rannu gwybodaeth gyda Chanolfan Gofalwyr Abertawe:	OES	NAC OES
Atgyfeiriwyd gan:				
Sefydliad ac Adran:		Rhif Cyswllt:		
<b>Manylion y gofalwr</b>				
Enw:		Dyddiad Geni:		
Cyfeiriad:				
Cod Post:				
Ffôn:		Ffôn Symudol:		
Ebost:				
Dull Cyswllt a Ffeirir:				
Perthynas y Gofalwr â'r rhai y mae'n ei ofalu amdanynt:				

<b>Manylion y Person/Pobl sy'n Derbynn Gofal</b>				
Enw:		Dyddiad geni:		
Cyfeiriad:				
Cod Post:				
Ffôn:		Rhif Ffôn Symdol:		
<b>Unrhyw Wybodaeth Gefndir / Cymorth y gallai fod ei hangen arnynt:</b> Gall hyn gynnwys pa wasanaethau cymorth y mae'r teulu neu'r person ifanc yn ymwneud â nhw. Pa fath o berson yw'r unigolyn ifanc? Pa gymorth a allai fod ei angen arno ac unrhyw wybodaeth gefndir arall a fydd yn ein helpu wrth weithio gyda'r person ifanc.				
Oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â chlwb ieuencid ar gyfer Oedolion Ifanc sy'n Gofalu?			Oes	Nac Oes



## Atodiad 5 - Oedolion Ifanc sy'n Gofalu ac ESTYN

Mae'r linc isod yn eich arwain at y 'Darpariaeth ar gyfer oedolion ifanc sy'n gofalu mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau atgyfeirio disgyblion ledled Cymru'. Gellir atgyfeirio prentisiaid yn ogystal. Ysgrifennwyd y canllawiau hyn gan ESTYN.

<https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/provision-young-carers-secondary-schools-further-education-colleges-and-pupil>

**Yr argymhellion a wnaed yw:**

### **Dylai Ysgolion Uwchradd, colegau ac Unedau Cyfeirio Disgyblion:**

- R1 Sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cadarn ar waith i nodi pa rai o'u disgyblion/dysgwyr sydd yn Oedolion Ifanc sy'n Gofalu
- R2 Sicrhau bod aelod o staff dynodedig sydd â chyfrifoldebau arweiniol mewn perthynas ag ymdrin ag Oedolion Ifanc sy'n Gofalu yn gweithredu fel pwynt cyswllt i ofalwyr ac yn hyrwyddo eu hanghenion
- R3 Gwella ymwybyddiaeth staff o anghenion Oedolion Ifanc sy' Gofalu
- R4 Ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol ac adolygu a gwella'r ddarpariaeth, er mwyn diwallu anghenion Oedolion Ifanc sy' Gofalu
- 5 Tracio a monitro cynnydd a chanlyniadau Oedolion Ifanc sy'n Gofalu at ddibenion data grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n agored i niwed
- R6 Gwerthuso eu darpariaeth ar gyfer Oedolion Ifanc sy'n Gofalu gan gyfeirio at y rhestr wirio yn Atodiad 1 neu unrhyw becynnau cymorth eraill sydd ar gael.